# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 7 Mai 2019
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Rowland Jones (Cadeirydd), Dewi Rattray, Michael Francis, Ann Tudor, Meirion Davies, Dylan Edwards, Richard Davies, John Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Cynghorwyd: Ada Evans, Caredig Jones,

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Mai gan Cadeirydd newydd am y flwyddyn 2019-2020, Rowland Jones. Diolchwyd y Cadeirydd am y braint o cael eu benodi eleni.

Darllenwyd cofnodion Mis Ebrill, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies.

18/1053 - MATERION YN CODI

1. Rhoddwyd diolch gan y Cyng.Ann Tudor i bawb wnaeth dod i dorri'r fynwent. Braf oedd gweld rhwng 60-70 aelod o'r gymuned yn cefnogi'r noson! Diolch hefyd i'r 'ladies' te am drefnu lluniaeth i'r gweithwyr. Fe wnaeth y Cynghorwyr rhoi ddiolch i'r Cyng.Ann Tudor am drefnu'r noson.

18/1054 - LLYTHYRON

1. Hysbyseb wrth Gyngor Sir yn nodi Ffordd ar Gau wrth Drem Y Môr, Rhiwfaen, Llanilar rhwng 9/5 – 10/5.
2. Posteri a manylion ar gyfer yr Etholiad Seneddol Ewropeaidd sydd yn cael eu cynnal ar 25/5. Rhoddwn y manylion yma ar hysbysfwrdd yr Hen Ysgol.
3. Nifer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis gan gynnwys Un Llais Cymru; Paperless, Consultation on Nuclear Waste. Ofynnwyd i'r clerc cadw copi o'r 'opt out form' ar ffeil.

18/1055 – ARIANNOL

1. Anfoneb wrth TME Electrical ar gyfer gosod Goleuadau goeden y Pentref, Rhagfyr 2018. Cyfanswm yr anfoneb £240.00. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng.Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ann Tudor.

18/1056 – CYNLLUNIO

Fe wnaeth y Clerc cysylltu gydag adran cynllunio'r Cyngor Sir ynglŷn â chais Aled Morris, Arwel, Llanilar. Ni dderbyniwyd y Cyngor Cymuned unrhyw fanylion blaenorol am y cais hyn.

Cais rhif A190046.

Ar ôl adolygu'r cais , penderfynwyd eu cefnogi. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn gytun

18/1057 - UNRHYW FATER ARALL

1. Nodwyd fod cyflymder traffig drwy Bentrellyn yn gonsyrn. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu unwaith eto at y cyngor Sir ynglŷn â hyn.
2. Pot Holes ar ffordd Trawscoed; mae gwaith trwsio'r cyngor Sir yn 'hit and miss'. Gofynnwyd a oes modd cael esboniad ar sut maent yn penderfynu pa rhai i gywiro a pha rhai i adael.
3. Nodwyd gan aelod o'r gymuned eu bod wedi cael trafferth gyda phob ifanc ar feiciau o gwmpas y pentref; mi fydd y cyngor cymuned yn cadw llygad ar y sefyllfa yma.

4. Fe wnaeth y Cyng.Dewi Rattray atgoffa'r cyngor fod Clwb Pêl droed Llanilar wedi mynd trwy i rownd derfynol y 'league Cup' yn erbyn Tregaron ar nos Lun 13 Mai yn Park Avenue. Fydd y tîm yn chware eto ar nos Lun 20 Mai, y tro yma yn erbyn Penparcau am y Len & Julia Newman Memorial Cup. Dewch yn llu i gefnogi!
5 Mae aelod o'r gymuned a'r RNLI wedi rhoi cyfle i'r Cyngor Cymuned derbyn polyn baner ail law. Penderfynwyd gan fod gan y gymuned un yn barod; fydd yn syniad wneud ymholiadau gyda'r ysgol gynradd i weld os fydd o ddefnydd iddynt.

Orffennwyd y cyfarfod am 8.30yh.